# Noson Tân Gwyllt
# gan Anni Llŷn
## Fireworks Night

1. Roedd Cyw a'r criw yn mynd i wylio'r tân gwyllt. Roedd pawb yn gwisgo sgarff gynnes a het. Roedd Llew wedi paratoi brechdanau ac roedd Jangl wedi gwneud siocled poeth mewn fflasg i bawb. Roedden nhw i gyd yn llawn cyffro!.

2. Ond cyn gadael y tŷ, sylwodd Plwmp nad oedd Bolgi yno. "Ble mae Bolgi?" holodd. Yng nghanol y cyffro doedden nhw ddim wedi sylwi fod Bolgi ddim yno.

3. Aeth pawb i chwilio amdano. Aeth Jangl i edrych y tu ôl i'r soffa yn yr ystafell fyw. Aeth Plwmp a Llew i edrych yn y gegin, o dan y bwrdd. Aeth Cyw i'r ystafell ymolchi ac edrych yn y bath. Ond doedd dim sôn am Bolgi yn unman.

4. Yn sydyn, clywodd Cyw sŵn bach yn dod o'r ystafell wely. Aeth yno ar frys, ond doedd hi ddim yn gallu gweld Bolgi yn unman.

5. Clywodd y sŵn eto, yn dod o wely Bolgi. Aeth Cyw yn nes. Doedd Bolgi ddim yn y gwely ond roedd o'n cuddio o dan y gwely â'i bawennau dros ei glustiau.

6. "Bolgi? Wyt ti'n iawn?" holodd Cyw.
"Na," meddai Bolgi, "mae ofn arna i."

7. Llwyddodd Cyw i berswadio Bolgi i ddod allan o dan y gwely ac eistedd ar gadair. Dywedodd Bolgi wrthi bod arno ofn sŵn tân gwyllt. Daeth gweddill y criw i'r ystafell atyn nhw a dywedodd pawb wrth Bolgi nad oedd rhaid iddyn nhw fynd i wylio'r tân gwyllt – byddai'n well aros adref.

8. Roedd Bolgi yn falch ond yn teimlo'n drist nad oedd ei ffrindiau yn cael gweld y tân gwyllt. Ond yn sydyn sylweddolodd Cyw eu bod yn gallu gweld roced yn ffrwydro drwy'r ffenest. Roedden nhw'n gallu gweld popeth ond ddim clywed y sŵn clecio brawychus oedd yn dychryn Bolgi. Dyna wych!

9. Swatiodd pawb ar wely Bolgi i fwyta'r brechdanau ac yfed y siocled poeth gan wylio'r tân gwyllt drwy'r ffenest.

1. Cyw and the gang were going to watch the fireworks. Everyone was wearing a warm scarf and a hat. Llew had prepared sandwiches and Jangl had made hot chocolate in a flask for everyone. They were all very excited!

2. But before leaving the house, Plwmp noticed that Bolgi wasn't there. "Where is Bolgi?" he asked. In all the excitement, they hadn't noticed that Bolgi was missing.

3. Everyone went to look for him. Jangl went to check behind the sofa in the living room. Plwmp and Llew went to look in the kitchen, under the table. Cyw went to the bathroom and looked in the bath. But there was no sign of Bolgi anywhere.

4. Suddenly, Cyw heard a small noise coming from the bedroom. She hurried there, but she couldn't see Bolgi anywhere.

5. She heard the noise again, coming from Bolgi's bed. Cyw went closer. Bolgi wasn't in the bed, but he was hiding under it with his paws over his ears.

6. "Bolgi? Are you okay?" asked Cyw.
"No," said Bolgi, "I'm scared."

7. Cyw managed to persuade Bolgi to come out from under the bed and sit on a chair. Bolgi told her he was afraid of the sound of fireworks. The rest of the gang came into the room and everyone told Bolgi they didn't have to go and watch the fireworks — it would be better to stay at home.

8. Bolgi was happy but felt sad that his friends wouldn't get to see the fireworks. But suddenly Cyw realised they could see a rocket bursting through the window. They could see everything but couldn't hear the scary cracking noises that frightened Bolgi. How wonderful!

9. Everyone sat on Bolgi's bed eating sandwiches and drinking hot chocolate while watching the fireworks through the window.